

## **Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2022*. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie Morgan AS**

**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

21 Mehefin 2022

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

- 1.1 Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio rheoliad 35 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2017, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch addasrwydd staff.
- 1.2 Effaith y diwygiadau yw ymestyn y gofyniad bod cyflogeion a gweithwyr sy'n darparu gofal a chymorth yn cael eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i wasanaethau cartrefi gofal i oedolion ac i wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

- 2.1 Dim.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

- 3.1 Mae adran 80(1) (b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn ei gwneud yn ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiadau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
- 3.2 Gwnaeth Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020 ddiwygiadau i Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, a wnaed o dan Adran 80 (1) (b) o Ddeddf 2016. Roedd y diwygiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i agor cofrestr y gweithlu i unigolion sy'n cael eu cyflogi neu eu cymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau mewn cysylltiad â chartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion a/neu wasanaeth gofal preswyl yn wirfoddol o 2020.
- 3.3 Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio rheoliad 35 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2017, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch addasrwydd staff.
- 3.4 Bydd GCC yn rhoi'r broses o gofrestru gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd ar waith drwy ddiwygio Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru a wnaed o dan adrannau 83 (gofynion cofrestru) ac 84 (gofynion cymhwyster) o Ddeddf 2016.
- 3.5 Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gofrestru gweithwyr gofal preswyl i oedolion yn orfodol erbyn 2022. Mynegwyd yr ymrwymiad hwn mewn datganiadau ysgrifenedig ym mis Hydref 2015<sup>1</sup> a mis Tachwedd 2016<sup>2</sup>.

4.2 Bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr:

- Gwasanaeth cartref gofal i oedolion
- Canolfan breswyl i deuluoedd

i gyflogi personau sydd wedi'u cofrestru gyda GCC lle maent yn gweithio mewn rolau sy'n darparu gofal a chymorth. Mae'r gofyniad i gofrestru yn gymwys i gyflogeion ac i weithwyr a gyflogir o dan gontract ar gyfer gwasanaethau. Rhaid i weithwyr fod wedi'u cofrestru o fewn chwe mis i ddechrau eu cyflogaeth neu o fewn chwe mis i gael eu cymryd ymlaen gyntaf o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth.

4.3 Bwriad cyflwyno gofyniad ar y gwasanaethau hyn i gyflogi dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu yw rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd ac i ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny bod gweithwyr yn cael eu dwyn i gyfrif yn erbyn Cod Ymarfer Proffesiynol a bod ganddynt y cymwysterau priodol i ymgymryd â'r rôl.

4.4 Cyn cyflwyno'r gofyniad i gofrestru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfnod cofrestru gwirfoddol ar gyfer y grwpiau hyn o weithwyr a ddechreuodd ym mis Ebrill 2020.

4.5 I gael ei nodi ar y gofrestr, rhaid i berson feddu ar gymwysterau priodol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt fod wedi cwblhau cwrs a gymeradwywyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn llwyddiannus.

4.6 Fel rhan o'r rhaglen gofrestru, mae gan GCC y pŵer i godi ffi gofrestru o dan Ddeddf 2016, ac mae'n gyfrifol am bennu'r ffi hon.

#### **5. Ymgynghori**

5.1 Ym mis Gorffennaf 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol deuddeg wythnos ar gynigion i ymestyn rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol. Ystyriodd hyn egwyddor cofrestru.

5.2 Daeth 55 o ymatebion i law oddi wrth randdeiliaid amrywiol gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, darparwyr gwasanaethau ac unigolion. Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law:

---

<sup>1</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s45151/15%20October%202015.pdf> - llinellau 125 a 126.

<sup>2</sup> <https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/gwybodaeth-am-gofnod-y-trafodion/?meetingid=3488&assembly=4&c=Record+of+Proceedings#C259695>

- a. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn teimlo y dylai gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio i asiantaethau fod yn ddarostyngedig i'r un safonau a rheolau â'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan ddarparwr gwasanaeth (h.y. nid cynorthwyr personol) i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.
- b. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid darparu canllawiau ac y dylai'r rhain fod yn syml, yn gryno ac yn hawdd eu canfod a'u defnyddio "...*iaith gefnogol, glir ac anogol...*" Roedd teimlad y byddai canllawiau'n ddefnyddiol i nifer o gynulleidfaedd gan gynnwys newydd-ddyfodiaid i'r sector, gweithwyr presennol, cyflogwyr/darparwyr ac asiantaethau.
- c. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai cyfnod cofrestru gwirfoddol o ddwy flynedd cyn i'r gofyniad gael ei gyflwyno yn caniatáu digon o amser i'r sector ymgysylltu â chofrestru. Cydnabu rhai ei fod yn taro cydbwysedd rhwng darparu cyfnod arwain rhesymol a allai "...*arwain at hunanfodlonrwydd, ac yna tagfa yn y system wrth i'r terfyn amser ddod i ben...*" a chyfnod arweiniol sy'n rhy fyr ac nad yw'n caniatáu digon o amser i unigolion a darparwyr baratoi, a allai beryglu "*diogelwch cleifion*" yn y pen draw.

5.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad 10 wythnos arall ym mis Rhagfyr 2021 ar reoliadau 2022. Gan fod yr egwyddor o gofrestru gorfodol ar gyfer gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad mewn ymgynghoriad 12 wythnos ym mis Gorffennaf 2019, roedd yr ymgynghoriad 10 wythnos hwn yn gyfle i brofi a mireinio'r canllawiau rheoleiddio a ddarparwyd i'r sector.

5.4 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 20 Rhagfyr 2021 a 28 Chwefror 2022 ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn canolbwyntio ar y themâu allweddol canlynol:

- a. Dylid cael canllawiau clir a chryno i helpu gweithwyr i ddeall pwy ddylai gofrestru; sut y gellir cwblhau'r broses a mwy o weithdai i helpu cyflogwyr a chyflogeion i gwblhau'r broses.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda GCC i adolygu ac ystyried datblygu canllawiau clir a deunyddiau cefnogol i helpu cyflogwyr a chyflogeion drwy'r broses.

- b. A ellid cynnwys hyblygrwydd yn y broses gofrestru i ganiatáu i weithwyr rhan-amser, y rhai ar salwch mamolaeth neu salwch hirdymor, gael digon o amser i gwblhau'r broses a bodloni'r gofynion hyfforddi angenrheidiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda GCC i adolygu'r awgrymiadau hyn.

- c. Bod y canllawiau statudol yn cael eu diweddarau i gynnwys canllawiau clir ar bwy oedd i gofrestru a rhoi eglurder ynghylch sawl Rheoliad er mwyn osgoi amheuaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a GCC i adolygu a diweddarau'r canllawiau statudol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn gyfredol ac yn ymgorffori newidiadau deddfwriaethol diweddar.

- 5.5. Mae adran 27(4) o Ddeddf 2016 yn darparu “Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru— (a) ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy, a (b) cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad.” I gyflawni'r gofyniad hwn, cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad 10 wythnos, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru, yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2022-06/crynodeb-or-ymateb.pdf>

- 5.6 Yn ogystal, mae adran 27(5) o Ddeddf 2016 yn darparu “Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o ddatganiad a gyhoeddir o dan is-adran (4)(b) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.” Felly, gellir gweld copi o'r crynodeb o'r ymatebion yn:

yn:<https://senedd.cymru/chwilio/?SiteHomePagelD=0&Culture=cy-GB&SearchTerm=laid+documents>

## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Y cefndir

1. Pasiwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Tachwedd 2015 ac fe gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) – rheoleiddiwr y gweithlu.
2. Yn ystod hynt Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015, rhoddwyd ystyriaeth i gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol. Yng ngoleuni'r drafodaeth hon, gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o ddatganiadau a oedd yn nodi mai'r grwpiau nesaf o'r gweithlu i'w cofrestru fyddai gweithwyr gofal cartref a gweithwyr mewn gwasanaethau cartrefi gofal a rheoleiddir a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion.
3. Ym mis Ebrill 2020, daeth Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020 (“Rheoliadau 2020”) i rym. Roedd y rheoliadau hyn yn caniatáu i GCC agor y gofrestr i gyflogeion a gweithwyr mewn gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd yn wirfoddol cyn dyddiad cau arfaethedig o 2022 pan fyddai cofrestru o'r fath yn dod yn orfodol. Roedd y cam gweithredu hwn yn darparu cyfnod o ddwy flynedd i GCC weithio gyda'r sector i ddeall a pharatoi ar gyfer gofynion cofrestru.
4. Bydd Rheoliadau 2022 yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2017, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch addasrwydd staff. Effaith y diwygiadau yw bod gofyniad bod cyflogeion a gweithwyr sy'n darparu gofal a chymorth yn cael eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl dechrau gweithio yn y gwasanaeth) yn cael ei ymestyn i fod yn gymwys i wasanaethau cartrefi gofal i oedolion ac i wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd o fis Hydref 2022.
5. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes wedi diwygio'r rheolau a wnaed o dan adrannau 83 (gofynion cofrestru) ac 84 (gofynion cymwysterau) o Ddeddf 2016 drwy Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016 (Rheoliadau 2016).
6. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn canolbwyntio ar effeithiau ymestyn y gofyniad bod cyflogeion a gweithwyr sy'n darparu gofal a chymorth yn cael eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i wasanaethau cartrefi gofal i oedolion ac i wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

### *Ffioedd cofrestru*

7. O dan adrannau 74 ac 83 o Ddeddf 2016, mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) y pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd mewn cysylltiad â chofrestru i'r gofrestr. Rhaid i'r ffioedd hyn gael eu pennu mewn rheolau a wneir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.
8. GCC ac nid Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu lefel y ffioedd. Nid yw rheoliadau 2022 yn newid y pwerau i GCC godi ffi, na lefel y ffioedd hynny. Er hynny, gan mai costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rheoliadau arfaethedig yw'r rhain, maent yn cael eu hystyried fel rhan o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

### *Cefndir lefel bresennol y ffi a godir*

9. Pennwyd y ffioedd cofrestru presennol yn 2018, yn dilyn ymgynghoriad gan GCC. Er bod gwledydd eraill yn y DU wedi diwygio lefelau eu ffioedd ar wahanol adegau ers dechrau 2000, nid oedd lefelau ffioedd yng Nghymru wedi newid ers iddynt gael eu pennu'n wreiddiol yng Nghymru yn 2003 ac nid oedd modd eu cymharu â rheoleiddwyr gweithlu gofal cymdeithasol yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae ffioedd diwygiedig GCC yn golygu bod y gyfundrefn ffioedd cofrestru yng Nghymru yn cyd-fynd â'r cyfundrefnau gofal cymdeithasol eraill ledled y DU – ac eithrio Lloegr nad ydynt yn cofrestru'r grwpiau hyn o weithwyr gofal cymdeithasol.
10. Yn dilyn yr ymgynghoriad, penderfynodd GCC godi'r ffioedd yn raddol dros nifer o flynyddoedd gan ddechrau yn 2018-2019 ac yn dod i ben yn 2021-2022. Gwelodd y raddfa newydd godiadau ar draws y cyfnod o dair blynedd a ddechreuodd ar gyfer:
  - ffioedd gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol dros y cyfnod hwnnw yn ôl cynyddrannau o £10 gan ddechrau o £50 i £80; a
  - gweithwyr gofal cymdeithasol yn ôl cynyddrannau o £5 yn dechrau ar £15 ac yn codi i uchafswm o £30.
11. Byddai myfyrwyr sy'n astudio tuag at yrfa mewn gofal cymdeithasol yn talu ffi benodedig o £15 dros yr un cyfnod o dair blynedd.
12. Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rheoleiddiwr ar ffioedd cofrestru i sicrhau bod nifer o opsiynau'n cael eu hystyried a bod y rhain wedi'u pennu ar lefel sy'n fforddiadwy ac yn gymesur yn unol ag ymrwymadau Gweinidogion Cymru a wnaed yn 2015.
13. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynyddu'r ffioedd ymhellach ond mae hyn yn parhau i gael ei adolygu.

*Tabl A – Ffioedd cofrestru Cymru ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal i oedolion*

<b>Rolau</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2021-22</b>
<b>Gweithwyr gofal cymdeithasol</b>	£15	£20	£25	£30

14. At ddibenion cymharu, mae'r tabl isod (*Tabl B*) yn dangos y cyfraddau cofrestru i bob gwlad yn y DU ym mis Mehefin 2021:

*Tabl B – cymharu ffioedd cofrestru ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ledled y DU*

<b>Rolau</b>	<b>Lloegr</b>	<b>Gogledd Iwerddon</b>	<b>Yr Alban</b>	<b>Cymru</b>
<b>Gweithwyr gofal cymdeithasol</b>	Amherthnasol <sup>3</sup>	£30	£35	£30

<sup>3</sup> Nid yw Social Work England nac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol eraill gofrestru nac felly dalu ffi gofrestru.



## 7. Yr opsiynau

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir ei bwriad i'w gwneud yn ofynnol i weithwyr cartrefi gofal i oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, ers datblygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau ar gyfer gofal cartref ac mae bellach yn cael ei ymestyn i weithwyr mewn gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion ac i wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

Rydym wedi ymgynghori â'r sector gofal cymdeithasol ar ddiben, risgiau a manteision cofrestru. Mae'r sector gofal cymdeithasol yn cefnogi'r cynnig hwn, sy'n rhan o amcan polisi cyffredinol, sef proffesiynoli'r gweithlu.

Nod cofrestru, fel rhan o agenda broffesiynoli ehangach, yw cynnal ansawdd gofal a chodi proffil y sector. Bydd hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol fod gan weithwyr y cymwysterau a'r sgiliau priodol a'u bod yn cael eu dal i gyfrif yn erbyn Cod Ymarfer Proffesiynol.

Y ddau opsiwn yw:

**Opsiwn un:** Gwneud dim - cadw'r status quo sef cofrestru gwirfoddol;

**Opsiwn dau:** Ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cartrefi gofal i oedolion a darparwyr gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd gyflogi a/neu gymryd ymlaen o dan contract ar gyfer gwasanaethau unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o 1 Hydref 2022 ymlaen.

**Opsiwn un:** Gwneud dim - cadw status quo cofrestru gwirfoddol

O dan y senario hwn, ni fyddai angen i weithwyr a chyflogeion mewn gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd yng Nghymru gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu er mwyn cael eu cyflogi yn y gwasanaeth. Byddai cofrestru yn dal yn opsiwn i'r gweithwyr hyn. Mae'n debygol mai dim ond cyfran fach o'r gweithlu amcangyfrifedig a fyddai'n cofrestru gyda GCC gan na fyddai'n effeithio ar eu cyflogaeth pe na baent yn cael eu cofrestru a byddai cymhelliant mwy cyfyngedig i wneud hynny, yn enwedig i weithwyr nad oes ganddynt y cymwysterau gofynnol.

Byddai hyn yn golygu na fyddai manteision disgwylidig cofrestru, gan gynnwys sicrwydd cyhoeddus o ran cymwysterau ac atebolrwydd y gweithlu, yn ogystal ag uchelgeisiau ehangach sy'n ymwneud â phroffesiynoli, gwell canfyddiadau'r cyhoedd o waith gofal cymdeithasol a gwell ansawdd gofal, yn cael eu cyflawni.

Gallai hyn hefyd niweidio enw da Llywodraeth Cymru yn sylweddol o gofio'r ymrwymadau cyhoeddus sydd eisoes wedi'u gwneud i'r agenda hon.

**Opsiwn dau:** Ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cartrefi gofal sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf i wasanaethau oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd gyflogi a/neu gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau unigolion yn unig sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) o 1 Hydref 2022 ymlaen.

Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cymryd ymlaen gyflogeion neu weithwyr o dan gontract am wasanaethau, i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal i oedolion, gyflogi dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol.

Bydd hyn yn helpu i roi sicrwydd i'r cyhoedd o ran cymwysterau ac atebolrwydd y gweithlu. Mae cofrestru hefyd yn rhoi'r gallu i weithwyr gofnodi a dangos eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau priodol i ddarparu gofal a chymorth o safon. Bydd yn cyfrannu at agenda broffesiynoli, lle mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu cydnabod fel gweithwyr proffesiynol cymwysedig, gan hybu proffil gwaith gofal cymdeithasol fel gyrfa.

Mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru, drwy arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4) a 91(2) o Ddeddf 2016, nodi'r gofynion ar gyfer cofrestru yn ei Reolau Cofrestru. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn cymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud i ddeddfwriaeth neu ofynion cofrestru.

Rhaid i gyflogeion neu weithwyr sy'n ymuno â'r gofrestr fod â 'chymwysterau priodol', sy'n golygu y byddai angen iddynt fod wedi cwblhau cwrs a gymeradwywyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn llwyddiannus. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ar hyn o bryd y byddai angen iddynt feddu ar y Diploma Lefel 2 neu 3 angenrheidiol mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol neu ddyfarniad Lefel 2 mewn Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru) neu fod wedi cwblhau Fframwaith Sefydlu lechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan neu Ddyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru.

Byddai peidio â chyflwyno'r gofyniad hwn yn creu anghysondeb ar draws y gweithlu, gan fod cofrestru wedi bod yn orfodol i weithwyr gofal cartref ers mis Ebrill 2020. Gallai hyn greu gweithlu dwy haen o fewn y sector a allai beri ansefydlogrwydd os yw defnyddwyr gofal cymdeithasol yn credu bod gweithwyr cartref yn fwy cymwysedig ac yn fwy proffesiynol na'u cymheiriaid mewn cartrefi gofal, er enghraifft.

### **Rheoleiddiwr gwasanaethau (Arolygiaeth Gofal Cymru)**

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw rheoleiddiwr annibynnol gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru. Bydd AGC yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Gallai unrhyw ddarparwr sy'n cyflogi gweithwyr neu gyflogeion nad ydynt wedi'u cofrestru fod yn destun cosb a osodir gan Arolygiaeth Gofal

Cymru os canfyddid nad oedd yn bodloni gofynion y rheoliad hwn. Nodir y pwerau i gyflwyno cosb ym Mhennod 5 o Ddeddf 2026.

## **8. Costau a manteision**

**Opsiwn un**: Gwneud dim - cadw status quo cofrestru gwirfoddol

### ***Costau***

#### **Gweithlu/Darparwyr Gwasanaethau (Cyflogwyr)**

Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i weithwyr a chyflogeion, nac i ddarparwyr gwasanaethau. Byddai unrhyw gostau a ysgwyddir yn dal yn wirfoddol.

#### **Rheoleiddiwr y gweithlu (Gofal Cymdeithasol Cymru)**

O dan opsiwn un, gan fod y rheoleiddiwr eisoes wedi cael rhywfaint o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda'i baratoadau ar gyfer ymestyn y gofrestr, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol. Mae costau'r gofrestr wirfoddol wedi'u nodi pan gyflwynwyd hyn.

Os bydd y cynllun yn parhau fel proses wirfoddol, mae'n annhebygol y byddai nifer mawr o weithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal i oedolion yn parhau i gofrestru heb reswm, a allai arwain at golli incwm gan y byddai'n effeithio ar y refeniw a gesglir drwy gasglu'r ffi gofrestru flynyddol. Gallai hyn effeithio ar faint o gyllid y gall y rheoleiddiwr ei ailfuddsoddi yn ei raglen waith i helpu i gefnogi'r gwaith o reoleiddio a pharhau i wella'r gweithlu gofal cymdeithasol.

#### **Rheoleiddiwr gwasanaethau (Arolygiaeth Gofal Cymru)**

O dan yr opsiwn hwn, gan y byddai cofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd yn wirfoddol, ni fyddai unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yn cael eu gosod ar y rheoleiddiwr gwasanaethau fel rhan o'i arolygiad o wasanaethau ac felly ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo.

### ***Manteision***

Gellid dadlau mai prif fantais cadw'r status quo yw na fydd unrhyw rwymedigaeth ar ddarparwyr gwasanaethau i gyflogi neu gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, gan osgoi costau cysylltiedig gwneud hynny i ddarparwyr gwasanaethau a/neu unigolion.

### ***Risgiau***

Y brif risg i opsiwn un a chadw'r status quo yw na fydd gweithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau preswyl i

deuluoedd yn ymgysylltu â'r broses gofrestru. Mae hyn yn golygu na fydd manteision cofrestru yn cael eu cyflawni.

O gofio'r ymdrechion sylweddol i hyrwyddo cofrestru, gallai peidio â bwrw ymlaen â chofrestru gorfodol arwain at ddryswch ynghylch statws unigolion nad ydynt ar y gofrestr, er enghraifft a ydynt yn addas i'w cyflogi.

Mae risg hefyd o beri niwed i enw da Llywodraeth Cymru sydd wedi ymrwmo i broffesiynoli a chodi proffil y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae rhanddeiliaid yn y sector wedi bod yn gefnogol i gofrestru'r gweithlu ac wedi deall y manteision. Felly gallai peidio â bwrw ymlaen olygu bod rhai o'r rhanddeiliaid hyn yn ymddieithrio wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol.

Ni fydd gan weithwyr sy'n cael eu cyhuddo o fethiannau neu gamymddwyn unrhyw hawl i amddiffyn eu hunain rhag cyhuddiadau o'r fath. Yr opsiwn i allu cyflwyno eu hochr nhw o ddigwyddiadau i banel annibynnol Addaswydd i Ymarfer annibynnol a fyddai'n rhoi rhywfaint o amddiffyniad iddynt rhag unrhyw effeithiau negyddol ar honiadau o'r fath ar eu henw da os canfyddir bod y rhain wedyn yn anghywir.

Gallai system sy'n cefnogi cofrestru gwirfoddol yn unig hefyd arwain at ddull 'dwy haen' o ymdrin â'r gweithlu, gyda chanfyddiad nad yw gweithwyr nad ydynt wedi'u cofrestru mor fedrus â'r rhai sydd wedi'u cofrestru. Mae risg hefyd y bydd ymagwedd anghyson at hyfforddi yn y sector a llai o fuddsoddi mewn dysgu a datblygu ar draws y gweithlu.

**Opsiwn dau:** Ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cartrefi gofal sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf i wasanaethau oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd gyflogi a/neu gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau unigolion yn unig sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) o 1 Hydref 2022 ymlaen.

## **Costau**

### **Y gweithlu**

Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn gorfod talu'r ffi gofrestru flynyddol. Ceir tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu mai'r cyflogwr sy'n talu'r gost yn aml, yn hytrach na'r gweithiwr. Er hynny, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir mai cost i'r gweithlu ydyw.

Efallai na fydd hyn yn gost ychwanegol i bob gweithiwr, gan y gallai rhai ohonynt weithio mewn gwasanaeth lle mae angen cofrestru gyda GCC eisoes ac ni fydd angen i'r gweithwyr hyn gofrestru ddwywaith. Er enghraifft, lle mae unigolyn yn gweithio'n rhan-amser mewn cartrefi gofal i oedolion ac yn rhan-amser ar gyfer gwasanaeth gofal cartref. Heb ffigurau cywir ar nifer y gweithwyr rhan-amser a all weithio hefyd fel gweithwyr gofal cartref rhan-amser ac sydd eisoes wedi talu'r ffi gofrestru, nid yw'n bosibl rhag-weld cyfanswm y

gost i'r gweithlu yn gywir. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n cymryd camau ar hyn o bryd i wella data'r gweithlu a byddwn yn parhau i gadw ein rhagdybiaethau ar y costau o dan ystyriaeth.

Er hynny, gydag amcangyfrif o 20,000 o weithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal i oedolion, pe bai 30% (6,000) ohonynt eisoes wedi'u cofrestru fel gweithwyr gofal cartref, gallai'r gost o gofrestru i'r gweithlu fod hyd at £420,000 (14,000 x £30) y flwyddyn o 2022-23. Gallai'r ffigur hwn fod gryn dipyn yn uwch o gofio trosiant yn y system ond heb ffigurau cywir ar drosiant gan gynnwys nifer y gweithwyr sy'n gadael y sector o'i gymharu â'r rhai sy'n symud i weithio i wasanaethau gofal cymdeithasol eraill, mae'n anodd amcangyfrif y goblygiadau posibl o ran cost.

Gall y rhai sy'n cofrestru wneud cais i CThEM<sup>4</sup> i adennill cyfran o'r ffi hon yn ôl fel didyniad treth. Mae'r canllawiau a ddarperir gan wefan UK Gov yn amlinellu “...an individual can claim tax relief on fees or subscriptions you pay to approved professional organisations if it relates to your job.” Er hynny, ni fyddai unigolyn yn gallu hawlio ffioedd neu danysgrifiadau nad ydynt wedi talu amdanynt eu hunain (e.e. os yw'r cyflogwr wedi talu amdanynt). Gallai hyn gael effaith ymylol ar sylfaen drethi Cymru a phwerau newydd Llywodraeth Cymru i godi trethi ond, o gofio bod cofrestru gwirfoddol wedi'i gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd, rydym yn rhag-weld y bydd hyn bron yn negyddol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn darparu nifer o opsiynau talu i'r rhai sy'n cofrestru, gan gynnwys debydau uniongyrchol ar gyfer naill ai un taliad neu randaliadau misol a ledaenir dros flwyddyn.

Yn ogystal â'r ffi, mae cost gysylltiedig yn ymwneud â'r amser a gymerir i gwblhau'r broses gofrestru. Mae'n anodd gwybod i ba raddau y mae'r gost hon yn debygol o ddisgyn ar weithwyr unigol neu eu cyflogwyr, a phe bai'n disgyn ar weithwyr unigol, mae'n dod yn fwyfwy anodd ei fesur gan y bydd pobl yn cwblhau'r broses ar gyfraddau gwahanol. Er enghraifft, efallai na fydd gan rai ohonynt eu holl gymwysterau neu dystysgrifau wrth law, mae rhaid iddynt siarad â chyflogwyr blaenorol am gopiâu o dystysgrifau, etc. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn er y tybir mai cost i'r gweithlu yw'r ffi hon, tybir y bydd gwaith cofrestru'n cael ei wneud yn ystod oriau gwaith. Ar y sail hon, mae amcangyfrif o'r gost wedi'i gynhyrchu yn seiliedig ar y baich sy'n cael ei ysgwyddo gan gyflogwyr isod.

## **Darparwyr Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cyflogwyr)**

### *Yr effaith ar recriwtio a chadw staff*

Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai cofrestru ei chael ar recriwtio a chadw staff. Nid oes unrhyw ddata na thystiolaeth arall sy'n awgrymu bod y risg hon wedi dod i'r amlwg yn sylweddol mewn perthynas â gofal cartref, lle bu'n ofynnol i weithwyr gofrestru ers mis Ebrill 2020.

---

<sup>4</sup> Mae canllawiau ar beth y gellir ei hawlio yn ôl a sut i'w gweld yn <https://www.gov.uk/tax-relief-for-employees>

Gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan y Rhaglen Datblygu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (SCWDP), amcangyfrifodd Gofal Cymdeithasol Cymru fod rhwng 17,000 ac 20,000 o weithwyr gofal cartref yng Nghymru cyn cofrestru. Erbyn mis Ebrill 2020, roedd dros 20,000 o weithwyr presennol wedi cofrestru gyda'r rheoleiddiwr ac mae'r niferoedd wedi aros yn weddol gyson. Rydym yn ymwybodol bod "trosiant" wedi bod o fewn y system lle mae gweithwyr yn gadael neu'n symud rhwng cyflogwyr o fewn y sector. Mae hyn yn digwydd ar draws y sector gofal cymdeithasol am amrywiaeth o resymau – o delerau ac amodau gwell, llai o straen a chyflogau uwch yn y sector manwerthu i'r rhai sy'n defnyddio gofal cymdeithasol fel plattfform i mewn i ofal iechyd.

### *Cost Cofrestru*

Efallai y bydd cost ariannol bosibl i ddarparwyr gwasanaethau, a all dalu'r ffi gofrestru ar ran eu staff naill ai fel cymhelliad i ymuno â'u cwmni neu aros gydag ef. Er hynny, nid oes gennym unrhyw wybodaeth am ba mor gyffredin yw'r arfer hwn ac nid yw rheoleiddiwr y gweithlu yn cadw'r data hwn. Felly, rydym wedi nodi y gallai'r arfer hwn ddigwydd, gan y byddai unrhyw ragdybiaeth yn peryglu cyfrif costau bosibl ddwywaith.

### *Cost Cwblhau'r Broses Gofrestru*

Ar 15 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai, o fis Ebrill 2022, yn darparu cyllid i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol y Living Wage Foundation, sef £9.90, i weithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Amcangyfrifir y byddai'n cymryd tua dwy awr i gwblhau'r broses gofrestru (gyda'r holl bapurau a chymwysterau angenrheidiol wrth law); sy'n cyfateb i'r gost o tua £19.80 y gweithiwr (yn seiliedig ar 2 x £9.90 yr awr o fis Ebrill 2022 fel ein llinell sylfaen). Er hynny, wrth ystyried argostau cyflogwr ar gyfer pethau megis yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn, amcangyfrifwn y byddai hyn yn ychwanegu 30% (neu £5.94) ychwanegol sy'n cyfateb i gyfanswm cost o £25.74 i bob gweithiwr. Gallai'r ffigur hwn gynyddu'n sylweddol os nad oes gan weithwyr y gwaith papur angenrheidiol wrth law neu os ydynt yn cwblhau'r broses gofrestru drwy'r llwybr "cymhwysedd a gadarnhawyd" neu drwy gwblhau'r Dyfarniad Egyddorion a Gwerthoedd. Heb ddata cywir ar nifer y gweithwyr sy'n ffitio i mewn i bob un o'r categorïau hyn, nid yw'n bosibl darparu goblygiadau cost manwl ar gyfer cwblhau'r cofrestriad.

Gyda nifer sylweddol o weithwyr ar contractau rhan-amser (80% o weithwyr awdurdodau lleol a 55% o weithwyr gofal preswyl a gomisiynwyd<sup>5</sup>), mae'n bosibl y bydd cwblhau'r cofrestriad yn cymryd mwy o amser i'r unigolion hyn, wrth iddynt geisio ffitio cofrestru i mewn o amgylch eu patrymau darparu gwasanaethau a gweithio. Nid yw'n bosibl amcangyfrif yr amser y gallai hyn ei gymryd, gan y gallai hyn amrywio'n sylweddol ar draws y gweithlu.

---

<sup>5</sup>Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan GCC yn seiliedig ar ddata gweithlu 2019 i'w gweld yn <https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/adroddiadaur-gweithlu> - ni chasglwyd data yn 2020 er mwyn lleddfu'r pwysau ar y sector yn ystod y pandemig.

Gallai costau ychwanegol gynnwys amser i reolwyr ddysgu am y gofynion cadw cofnodion ar gyfer y broses gofrestru a'u rheoli. Mae hyn yn anos ei fesur gan y bydd yn amrywio yn dibynnu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol y rheolwr, nifer y staff y maent yn eu rheoli, a lefel eu cyflog. Er mwyn ceisio deall y costau hyn, rydym wedi defnyddio ffigurau cyflog cyfartalog y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) 2020 gan fod ystadegau 2021 wedi dangos bod COVID-19 wedi effeithio ar y data enillion wythnosol cyfartalog. Yn 2020 roedd 1,249 o reolwyr wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda chyflog cyfartalog o £28,181 y flwyddyn<sup>6</sup>. Os tybiwn fod y gweithwyr hyn yn cael eu talu £14.89 yr awr a bod angen 6 awr arnynt ar gyfartaledd i ddeall ac ymglyfarwyddo â'r gofynion, mae hyn yn cyfateb i gost o £89.34 i bob rheolwr; neu £116.14 pan ystyrir costau'r cyflogwr (tua 30% neu £26.80 yn ychwanegol) ar gyfer pethau megis yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn. Er hynny, er mwyn lliniaru unrhyw un o'r costau hyn, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn gyfrifol am wneud y prosesau cofrestru a chadw cofnodion mor hygyrch â phosibl.

### *Costau Hyfforddi*

Yn gysylltiedig â chofrestru staff mae'r gost o fodloni'r gofynion cymwysterau gofynnol a nodir gan Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn ei reolau cofrestru. Mae adrannau 73 a 74 o Ddeddf 2016 yn rhoi pŵer i GCC ddatblygu a chyhoeddi rheolau ynghylch cofrestru, cymeradwyo cyrsiau, hyfforddiant a Chodau Ymarfer. Lanswyd cyfres newydd o gymwysterau ym mis Medi 2019, ac mae GCC wedi penderfynu mai'r gofynion cymwysterau gofynnol fydd lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diploma, FfCCh neu NVQ) neu gymhwyster cyfatebol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n amcangyfrif y bydd yn cymryd 460 awr i'w gwblhau dros dair blynedd cofrestru. Rhaid i'r gofyniad cymhwyster ddechrau cyn pen chwe mis cyntaf ar ôl i gyflogai newydd ymuno â'r gwasanaeth a chael ei gwblhau erbyn iddynt ailgofrestru ar ôl 3 blynedd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos y byddai angen i weithiwr gwblhau 12.7 awr o astudio'r wythnos ar gyfartaledd i fodloni'r gofyniad hwn.

Mae'r amcangyfrifon isod, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, wedi'u cynnwys i ddarparu senario "gwaethaf" ar gyfer darparwyr gwasanaethau yn seiliedig ar weithwyr sy'n dilyn cyrsiau ffurfiol. Nid oes gennym ddata cywir ar sut mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol, p'un ai drwy gyrsiau ffurfiol a ddarperir drwy ddarparwyr gwasanaethau neu raglenni a noddir gan yr awdurdodau lleol, yn anffurfiol drwy hyfforddiant "yn y swydd" neu drwy leoliadau prentisiaeth. Felly, nid yw'n bosibl darparu amcangyfrif cywir o'r effaith uniongyrchol ar ddarparwyr gwasanaethau. Gyda'r lefelau uchel o drosiant staff yn y sector gofal cymdeithasol, nid oes modd ychwaith pennu'n llawn lefelau'r gweithwyr a allai symud o fewn y sector neu adael i ymuno â'r sectorau gofal iechyd neu fanwerthu ar hyn o bryd. Er hynny, p'un a yw'r gweithwyr hyn yn symud i rôl arall neu'n gadael y sector yn gyfan gwbl, mae cost yn cael ei hysgwyddo gan

---

6

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/ashe1997to2015selectedestimates> - table 7 SIC07 Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol

ddarparwyr gwasanaethau i "lenwi" y swydd wag o ran talu ffioedd cofrestru ychwanegol a chostau hyfforddi.

Dylid nodi hefyd bod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar ragdybiaeth bod costau staff sy'n mynychu'r cyrsiau hyn yn cael eu talu gan eu cyflogwr ar gyfradd y Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW). Er hynny, ers mis Ebrill 2022, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i helpu i godi cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, i'r Cyflog Byw Gwirioneddol (RLW) o £9.90. Byddai hyn yn cynyddu'r costau isod, ond rydym wedi cadw'r amcangyfrifon NLW, gan fod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r sector ar gyfer y codiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Efallai y bydd disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau dalu unigolion am yr amser a dreulir ar hyfforddiant, a all naill ai fod ar hyfforddiant yn y gwaith neu drwy gyrsiau "ystafell ddosbarth" ond mae'n anodd amcangyfrif cost hyn oherwydd natur unigol yr hyfforddiant. Er hynny, os cymerwn syniad safonedig o hyfforddiant 1 diwrnod oddi ar y safle yr wythnos o gyfanswm o 460 awr o hyfforddiant gallwn amcangyfrif y byddai'r gost yn cyfateb i 92 awr ar gost o tua £1136 (£9.50 Cyflog Byw Gwirioneddol ynghyd ag argostau'r cyflogwr o 30%). Er hynny, am y rhesymau a amlinellir uchod, efallai na fydd hyn yn adlewyrchu'n gywir yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Mae hyn yn diystyru cost y dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd gan fod hyn yn rhan o Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan, sy'n ofyniad ar wahân i gofrestru. Mae'r gost hon hefyd yn tybio na fyddai gweithwyr nad ydynt wedi'u cofrestru yn cael unrhyw hyfforddiant arall sy'n cwmpasu cynnwys tebyg.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn amcangyfrif ei bod yn bosibl nad yw 40% o'r gweithlu gofal cymdeithasol presennol wedi ennill y cymwysterau angenrheidiol i gofrestru. Byddai sicrhau bod y nifer hwn o'r gweithlu yn cyrraedd y cymwysterau gofynnol yn cyfateb i gost o £9 miliwn i'r sector mewn costau cyflog yn unig<sup>7</sup> (neu £3 miliwn y flwyddyn dros y cyfnod cofrestru tair blynedd). Mae'n ofynnol hefyd i weithwyr gwblhau datblygiad proffesiynol parhaus ychwanegol er mwyn parhau i fod yn gofrestredig, ar ôl iddynt ennill y cymhwyster. Mae hyn yn cyfateb i 90 awr dros dair blynedd er bod y ffigur hwn yn cael ei adolygu. Gellir ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r dysgu hwn 'yn y swydd' gyda'r unigolyn yn gorfod darparu tystiolaeth o'r dysgu. Os yw 50% o'r oriau ar gost i ddarparwr y gwasanaeth, cost y cyflog fyddai £185 y flwyddyn i bob gweithiwr gan gynnwys argostau neu £2.6m y flwyddyn i 14,000 o unigolion.

Mewn ymateb i rai pryderon gan y sector na fyddai gan rai unigolion ddiddordeb mewn ennill cymhwyster ac y byddent yn debygol o adael y sector, mae GCC wedi ymestyn yr atebion a ganfu ar gyfer gofal cartref i'r rhaglen hon er mwyn helpu i gadw'r staff hyn a'u helpu i gofrestru. Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal i oedolion hefyd yn gallu dilyn naill ai:

- y llwybr cymwysterau;

---

<sup>7</sup>Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y Cyflog Byw Cenedlaethol presennol o £9.50 ac 8,000 o weithwyr y mae angen iddynt ennill y cymhwyster hwn.



- dilyn y llwybr cymhwysedd a gadarnhawyd – lle mae rheolwyr yn cadarnhau bod gan eu cyflogeion y sgiliau a'r cymwyseddau cywir; a
- lle mae gweithwyr yn newydd ac na fydd ganddynt amser i gwblhau'r gofynion cymhwyster erbyn y dyddiad cau gorfodol, gallent gwblhau modiwl cyntaf (ac asesiad cysylltiedig) y fframwaith sefydlu ar sgiliau a gwerthoedd ar gyfer gweithio ym maes gofal cymdeithasol cyn cofrestru.

Byddai hyn yn helpu i leddfu'r pwysau uniongyrchol ar ddarparwyr gwasanaethau o ran cost hyfforddiant, ond bydd costau o hyd yn gysylltiedig â datblygiad proffesiynol parhaus i staff wrth symud ymlaen. Mae'n anodd mesur yr arbedion y byddai'r opsiynau hyn yn eu rhoi i ddarparwyr gwasanaethau. Mae'n debygol y bydd rhai o'r costau hyn eisoes wedi'u lliniaru gan y byddai llawer o weithwyr wedi ymgymryd â rhywfaint o'r hyfforddiant hwn yn y blynyddoedd yn arwain at gofrestriad "gwirfoddol" gweithwyr cartrefi gofal i oedolion. Er hynny, rydym yn cydnabod y gallai pandemig COVID-19 fod wedi cael effaith andwyol yn ystod y cyfnod cofrestru "gwirfoddol" gan y byddai'r ffocws wedi bod ar ddarparu gofal a chymorth. Er hynny, nid oes gennym ddata ar gael ar y costau hyfforddi presennol (cyn cofrestru) a ysgwyddir.

Er hynny, nid yw'r costau hyn yn ganlyniad i'r rheoliad hwn yn unig. Mae'n rhesymol disgwyl, hyd yn oed heb gofrestru gorfodol, y bydd cost i ddarparwyr gwasanaethau ar gyfer hyfforddi staff a sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i wneud y gwaith.

Yn gyffredinol, mae dull mwy cyson o hyfforddi ar draws y sector yn debygol o arwain at fwy o werth am arian i ddarparwyr gwasanaethau. Gallai hyd yn oed gyflwyno rhai arbedion cost, er enghraifft lle mae gweithwyr yn symud o un cyflogwr i'r llall gan fod y sgiliau hyn yn drosglwyddadwy.

Mae'n bwysig nodi bod Gofal Cymdeithasol Cymru'n ymchwilio i weld a fyddai modd lleihau'r amser astudio ar gyfer y cymhwyster lefel 2 ymhellach er mwyn helpu i liniaru'r costau hyn ymhellach mewn perthynas â staff rhan-amser. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl yn y sector yn gweithio'n rhan-amser.

### **Rheoleiddiwr y Gweithlu (Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC))**

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y gofrestr a rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau preswyl i deuluoedd yn cynnwys:

- Amcangyfrifir bod costau staffio uniongyrchol sy'n deillio o ofynion rheoli'r broses gofrestru yn codi o £108,500 yn 2018-19 i £194,500 yn 2021-22;
- Costau staffio uniongyrchol sy'n deillio o staff ychwanegol y mae eu hangen i oruchwylio nifer cynyddol disgwylidig o brosesau ymddygiad a addaswyd i ymarfer, yr amcangyfrifir y byddant yn codi o £431,300 yn 2018-19 i £933,500 yn 2021-22. Caiff rhai o'r costau hyn eu gwrthbwysu

gan y cynnydd mewn ffioedd cofrestru a gesglir oddi wrth y gweithwyr hynny sy'n cael eu hychwanegu at gofrestr y gweithlu; a

- Chostau anuniongyrchol megis llogi lleoliadau ar gyfer pwyllgorau ymddygiad a threuliau pwyllgorau ymddygiad.

Er hynny, fel yr amlinellir uchod, mae rheoleiddiwr y gweithlu eisoes wedi cael cyllid i helpu i dalu'r costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer cynnwys mwy o weithwyr gofal cymdeithasol ar gofrestr y gweithlu. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol y tu allan i gyllid cymorth grant refeniw Gofal Cymdeithasol Cymru i dalu am gostau staffio ychwanegol i helpu gyda'r cynnydd yn y broses gofrestru ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal cartref. Ni ddisgwylir y caiff darpariaeth gyllido ychwanegol ei gwneud ar gyfer yr ymarfer hwn. Rhoes gytundeb mewn egwyddor hefyd i ddarparu cynnydd pellach yn y costau i helpu gydag unrhyw gynnydd sylweddol posibl yn nifer y gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer ar gyfer y rheoleiddiwr, a fyddai'n gost ariannol a gweinyddol sylweddol. Amlinellir manylion y costau hyn isod.

Roedd y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys recriwtio adnoddau staff ychwanegol i reoli'r cynnydd disgwylidiedig mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â gweinyddu'r ddau ymarfer cofrestru. Er mwyn cynyddu'r gofrestr gyda staff cartrefi gofal cartref ac oedolion, amcangyfrifodd y byddai angen 27 aelod o staff ychwanegol sy'n gyfwerth ag amser cyfan (WTE) i dalu am y cynnydd mewn gweithgarwch (6 WTE yn yr adran Gofrestru, 17 yn yr adran Addasrwydd i Ymarfer a 4 yn nhîm rheoli'r Pwyllgor). Amcangyfrifodd y rheoleiddiwr hefyd y byddai angen £200,000 o gyllid ychwanegol i dalu am gostau rhedeg y tair adran reoleiddio a £170,000 i dalu am gostau llety i letya'r staff newydd a £80,000 pellach o gostau cymorth.

### *Refeniw a gesglir drwy ffioedd cofrestru*

Gyda'r adolygiad a'r cynnydd mewn ffioedd cofrestru ar gyfer pob grŵp o'r gweithlu y mae'n ofynnol iddynt gofrestru, cafodd GCC £448,000<sup>8</sup> o refeniw ychwanegol yn 2019-20 o'r ffynhonnell hon. Daeth hyn â chyfanswm ei incwm o ffioedd cofrestru i £978,000 ar gyfer y flwyddyn honno. Cafwyd cynnydd pellach o £177,000 yn y ffigur hwn yn 2020-21<sup>9</sup> gyda chwblhau cofrestriad y gweithlu gofal cartref a dechrau cyfnod cofrestru "gwirfoddol" y gweithiwr cartref gofal i oedolion. Gan dybio bod 20,000 o weithwyr cartrefi gofal i oedolion yn ymuno â'r gofrestr erbyn mis Hydref 2022, bydd hyn yn cynyddu £600,000 pellach ar y ffrwd refeniw ar ddiwedd yr ymarfer hwn a ffrwd refeniw gyffredinol gwerth cyfanswm o £1.7 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno. Mae'n werth nodi, er hynny, fod gan rai unigolion gofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes a allai leihau'r ffrwd refeniw bosibl hon. Mae refeniw'r ffi gofrestru hon yn cael ei ailfuddsoddi gan GCC yn ôl i reoleiddio a hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn cael ei ystyried pan gaiff ei gyllid cymorth grant blynyddol ei drafod gyda Llywodraeth Cymru.

<sup>8</sup> [https://gofalcymdeithasol.cymru/cms\\_assets/file-uploads/Annual-report-and-accounts-2020-CYM-draft-4-v1.pdf](https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Annual-report-and-accounts-2020-CYM-draft-4-v1.pdf) - tudalen 40

<sup>9</sup> [https://gofalcymdeithasol.cymru/cms\\_assets/file-uploads/Annual-report-and-accounts-2021-CYM.pdf](https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Annual-report-and-accounts-2021-CYM.pdf) - tudalen 50

## *Gwrandawiadau addaswydd i ymarfer*

Mae prosesau addaswydd i ymarfer yn cael eu sbarduno gan atgyfeiriad sy'n honni bod addaswydd person i ymarfer wedi'i amharu am un o amryw o resymau. Mae'r ymchwiliadau hyn yn cymryd tipyn o adnoddau'r rheoleiddiwr ac mae GCC yn amcangyfrif y bydd y costau sy'n sy'n gysylltiedig â chadw'r gofrestr a rheoleiddio gweithwyr gofal preswyl i oedolion yn cynyddu o £2,994,000 yn 2021-2022<sup>10</sup> yn ôl £700,000 pellach y flwyddyn<sup>11</sup>. Mae'r costau hyn yn cynnwys gwariant staffio uniongyrchol i reoli'r broses gofrestru ac i oruchwylio'r prosesau ymddygiad a addaswydd i ymarfer, yn ogystal â rhai costau anuniongyrchol ar gyfer llogi lleoliad i gynnal y pwyllgorau ymddygiad a threuliau'r pwyllgorau ymddygiad. Mae GCC yn amcangyfrif mai cost gyfartalog gwrandawriad addaswydd i ymarfer yw tua £16,000 i bob achos. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n amcangyfrif, gyda chynnwys y gweithlu gofal cartref llawn sy'n gorfod cofrestru a'r gweithlu gofal preswyl i oedolion (tua 40,000 o weithwyr i gyd) y gallai nifer yr achosion gynyddu o 25 gyda 84 o achosion pellach yn mynd i wrandawriad llawn erbyn 2022, gan arwain at wariant ychwanegol o £1,092,000 i'w costau rheoleiddio cyffredinol, sy'n cyfateb i gyfanswm o £1,417,000 y flwyddyn. Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn dangos bod GCC yn disgwyl i gostau gweithgarwch ei banel ymddygiad gynyddu i £1,741,000 erbyn 2021-22. Cadarnhaodd Cyngor Chwaraeon Cymru fod ychydig dros 900 o ymchwiliadau wedi'u cynnal yn 2020-21 mewn perthynas â gweithwyr cymorth cartref, sef bron i 5% o'r 20,000 o weithwyr cymorth cartref sydd wedi'u cofrestru. Gallwn dybio hynny, o gofio y gallai'r nifer disgwylidig sy'n gorfod cofrestru weld nifer tebyg o achosion yn disgyn allan o gofrestrïadau gweithwyr cartrefi gofal i oedolion. Er hynny, mae'n anodd pennu cost gyffredinol ymchwilio i niferoedd o'r fath gan y byddai rhai yn arwain at fân gosbau tra gallai eraill arwain at wrandawiadau Addaswydd i Ymarfer llawn ac ataliadau dros dro.

Er y bydd y rheoleiddiwr yn defnyddio rhywfaint o'r incwm a gynhyrchir gan y ffi gofrestru i wrthbwyso'r costau hyn, ni fydd y cronfeydd hyn yn talu holl gost rheoleiddio a bydd angen cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru o hyd. Os bydd nifer yr achosion yn cynyddu, efallai y bydd angen cyllid ychwanegol i ateb y galw hwn. Byddwn yn gweithio gyda'r rheoleiddiwr i barhau i adolygu hyn.

## **Arolygiaeth Gofal Cymru**

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn samplu cofnodion staff fel rhan o'i phrosesau arolygu rheolaidd. Mae hyn wedi ychwanegu peth amser ychwanegol at bob arolygiad. Er hynny, nid yw AGC wedi ymgymryd ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r amser a gymerir i wirio sampl o oriau wedi'u contractio gweithwyr, etc, gan y bydd hyn yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth a nifer y

---

<sup>10</sup> Darparwyd y ffigur gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer agor y gofrestr i weithwyr yn 2018.

<sup>11</sup> Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar gostau amcangyfrifedig (cost gyfartalog gwrandawriad o £16,000) yng ngoleuni'r ffaith bod rhwng 20,000 a 25,000 o weithwyr cartrefi gofal i oedolion yn ymuno â'r gofrestr.

staff yn y lleoliad hwnnw. Os canfyddir bod cartref gofal yn cyflogi gweithwyr nad ydynt wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, maent yn wynebu'r posibilrwydd o gosb gan AGC.

## **Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r rheoleiddiwr ar hyn o bryd, drwy gyllid cymorth grant. Er mwyn paratoi ar gyfer agor y gofrestr wirfoddol, rhoddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i'r rheoleiddiwr i dalu'r costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r ymarfer hwn i dalu am gostau staffio a TG ychwanegol. Er y disgwylir y bydd y refeniw ychwanegol a gynhrychir gan y cynnydd mewn ffioedd cofrestru yn gwneud rhywfaint i wrthbwysu'r angen am gyllid pellach, mae angen cymorthdaliadau o hyd er mwyn cadw costau cofrestru'n isel. Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn parhau i weithio gyda GCC i fonitro pa gostau ychwanegol a allai ddeillio o'r galw am adolygiadau a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a allai godi o'r cynnydd i gofrestr y gweithlu.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu prentisiaethau ar gyfer Lefel 2 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ac mae'n bosibl y gallai ymestyn y gofrestr arwain at gynnydd posibl yn y galw am y llwybr hwn. Gofal cymdeithasol yw un o'r galwadau sector uchaf am y rhaglen gyllido hon. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n monitro'r nifer sy'n manteisio ar y brentisiaeth.

## ***Manteision***

Bydd cofrestru gweithlu'r cartrefi gofal i oedolion yn adeiladu ymhellach ar y camau a gymerwyd i broffesiynoli'r sector, sef amcan cyffredinol y gwaith. Mae'r manteision disgwyliedig cofrestru yn cynnwys:

- Gwell sicrwydd ymhlith y cyhoedd bod gan weithwyr gofal cymdeithasol gymwysterau priodol ac y gellir eu dwyn i gyfrif yn erbyn Cod Ymarfer Proffesiynol<sup>12</sup>;
- Mae llywodraethu 'Addasrwydd i Ymarfer' mewn perthynas â chofrestru yn golygu y bydd gan unigolion hawl i droi at banel os ydynt yn dymuno amddiffyn eu hunain rhag honiadau o gamymddwyn.
- Os bydd gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu am y rôl bwysig y maent yn ei chyflawni, gallai hyn arwain at well recriwtio a chadw staff;
- Byddai gwell recriwtio a chadw staff yn arwain at welliannau yn ansawdd y gofal.

Yn ogystal, er nad cofrestru gorfodol yw'r unig ffordd o sicrhau mwy o gefnogaeth gan GCC i weithwyr yn y sector, mae'n golygu y byddent yn fwy

---

<sup>12</sup>Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol - [https://gofalcymdeithasol.cymru/cms\\_assets/file-uploads/Cod-Ymarfer-Argraffiadwy.pdf](https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Cod-Ymarfer-Argraffiadwy.pdf)

tebygol o gael gafael ar y cyngor, cael mynediad at raglenni hyfforddi ac offer a chanllawiau hyfforddi ar-lein a fydd ar gael.

Er hynny, mae'n anodd mesur y manteision hyn ac maent yn dibynnu ar nifer o ffactorau eraill gan gynnwys gwella telerau ac amodau cyflogaeth. Prin yw'r dystiolaeth gymharol hefyd am fanteision cofrestru gweithwyr, y tu hwnt i ymgynghori a thystiolaeth anecdotaidd arall. Bydd angen gwerthuso effaith cyflwyno'r newidiadau hyn.

Un o fanteision recriwtio gweithwyr cofrestredig i ddarparwyr gwasanaethau yw y gallai leihau costau recriwtio a hyfforddi gweithwyr sydd eisoes wedi'u cofrestru. Os cyflawnir y manteision eraill, byddai hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd well. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau wirio gyda'r rheoleiddiwr i weld a yw darpar weithiwr neu gyflogai wedi bod yn destun unrhyw gamau disgyblu yn y gorffennol.

### **Risgiau**

Mynegwyd pryderon drwy gydol y broses hon am y risg y bydd cofrestru gorfodol yn achosi cynnydd yn y lefel trosiant bresennol. Credir bod y risg yn arbennig o ddifrifol yn ystod chwe mis cyntaf cyflogaeth ac os bernid bod cofrestru'n rhy gostus i weithwyr neu ddarparwyr gwasanaethau, ac os bernid bod y manteision o werth digonol, gallai cadw staff fod yn broblem a gallent adael y sector neu symud i faes arall sydd heb ei gofrestru (e.e. cynorthwyyr personol). Roedd dadl arall yn canolbwyntio ar yr effaith ar recriwtio, lle gallai'r ffi gofrestru atal rhai pobl rhag ymuno â'r sector. Bernid bod hyn yn bryder penodol mewn sector y canfyddir eisoes fod ganddo gyflogau isel iawn.

Er hynny, nid yw dystiolaeth o gyflwyno cofrestru gorfodol yn yr Alban wedi dangos arwyddion o gynnydd mewn colledion staff yno<sup>13</sup>. Codwyd pryderon tebyg drwy gydol y broses o gofrestru gweithwyr gofal cartref. Er na chasglwyd data ar golledion o'r sector yn dilyn cyflwyno'r gofyniad cofrestru ym maes gofal cartref, roedd nifer yr unigolion a gofrestrodd erbyn mis Ebrill 2020 yn rhagori ar y disgwyliadau gyda thros 23,000 o weithwyr (o'i gymharu ag amcangyfrif o 20,000). Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio'n galed i leihau'r risgiau hyn drwy gyfleu manteision cofrestru a'i wneud mor hygyrch â phosibl drwy ddatblygu gwahanol lwybrau at gymwysterau a gwahanol opsiynau ar gyfer talu ffioedd cofrestru.

Mae ffigurau a ddarparwyd gan GCC yn dangos, ar 1 Rhagfyr 2021, fod 1,444 o weithwyr gofal cymdeithasol yn y gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion wedi ymuno â'r gofrestr yn wirfoddol. Mae perygl na fydd pob gweithiwr yn cofrestru erbyn y dyddiad cau o fis Hydref. Felly, mae GCC yn cynnig, gyda chytundeb rheoleiddiwr y gwasanaeth, sef Arolygiaeth Gofal Cymru, y dylid ymestyn chwe mis cofrestru gorfodol i helpu i sicrhau bod yr holl weithwyr presennol yn gallu cofrestru. Ar ôl y pwynt hwn, os nad ydynt wedi cwblhau'r cofrestriad, byddai'r

---

<sup>13</sup> <https://data.sssc.uk.com/images/WDR/WDR2017.pdf> - Sector Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban: Adroddiad ar Ddata'r Gweithlu 2017, cyhoeddwyd 29 Awst 2018

gweithiwr a'u cyflogwr wedi methu â bodloni'r gofynion a nodir yn y rheoliad ac yn wynebu'r gosb briodol.

### **Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

Ystyriwyd dau opsiwn. Opsiwn un yw cadw'r system bresennol lle na fyddai'n ofynnol i'r gweithlu gofrestru gyda'r rheoleiddiwr ond lle y gall wneud hynny'n wirfoddol. Gallai'r opsiwn hwn arwain at ddull anghyson o gofrestru yn y sector, gyda llawer yn 'optio allan'. Mae hyn yn golygu na chaiff manteision llawn cofrestru'r gweithlu eu cyflawni.

Bydd opsiwn dau yn sicrhau dull cyson o gofrestru gweithlu'r cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau preswyl i deuluoedd a'r gweithlu gweithwyr gofal cartref a chartrefi gofal i blant a byddai'n sicrhau bod manteision cofrestru'n cael eu gwireddu'n llawn gan gynnwys y buddsoddiad cysylltiedig yn sgiliau'r gweithlu ar ran darparwyr gwasanaethau.

Felly, opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

### **9. Asesu'r gystadleuaeth**

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwyso i Reoliadau 2022 sy'n dangos nad yw'r Rheoliadau'n debygol o gael unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth; felly ni chynhaliwyd asesiad manwl.

Nid ydym o'r farn bod angen cynnal asesiad cystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na fyddant yn effeithio ar y sector busnes mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.

### **10. Adolygu ar ôl gweithredu**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu adolygiad ôl-weithredu o'r rhaglen gofrestru erbyn 2024.